Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Gogledd Cymru Gyda’n Gilydd: gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

## **Bywyd ar ôl ysgol:** y daith ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru

**Canllaw Arferion Da**

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council | Conwy | Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council | Gwynedd | Wrexham Wrecsam | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

# CYFLWYNIAD

Mae'r canllaw hwn wedi'i seilio ar adran arferion da adroddiad ymchwil llawn **Bywyd ar ôl Ysgol**. Gan fod cymaint o wybodaeth yn yr adran honno, y farn oedd y gallai fod yn adnodd ar ei phen ei hun. Wrth wneud hynny, manteisiom ar y cyfle i'w datblygu ymhellach ac fe welwch wybodaeth newydd yn y canllaw hwn nad yw yn yr adroddiad. Nid yw'n hollgynhwysol. Y bwriad yw amlygu meysydd o ymarfer arloesol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ynghlwm â phrif rannau'r adroddiad. Y diben yw darparu adnodd i'n partneriaid sy'n gallu cael ei ddefnyddio i ystyried ffyrdd newydd o gefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu i gael y canlyniadau gorau un.



# LLETY

Mae llety i bobl ifanc ar oed pontio'n faes lle mae wedi bod yn anodd dod o hyd i enghreifftiau o arfer da. Mae rhywfaint o ymarfer cadarnhaol ac arloesol, ond mae angen mwy ohono. Mae angen ystyried llety ochr yn ochr â meysydd eraill ym mywyd person ifanc. Gall gymryd blynyddoedd i gynllunio ar ei gyfer, felly mae cynllunio'n gynnar yn hanfodol os yw cartrefi am oes sy'n agos at adref ac yn diwallu anghenion pobl am gael eu datblygu. Yn ychwanegol at yr enghreifftiau isod o arfer da mewn llety i bobl ifanc, byddem hefyd yn tynnu eich sylw at enghreifftiau Camu 'Mlaen a Chonwy yn yr adran ar ddarpariaeth anghenion cymhleth ôl-16 oed.

## Draig Supported Living

Dyma fusnes menter gymdeithasol newydd a gychwynnwyd yn Wrecsam yn 2021 a'i nod yw darparu cyfleusterau byw â chymorth i rai 16 i 25 oed ag anghenion ychwanegol i hwyluso byw'n annibynnol, rhoi gofal seibiant y mae mawr ei angen i oedolion ifanc ag anghenion ychwanegol, ac i helpu pobl ifanc bontio o fyw â chymorth i fyw'n annibynnol. Maent yn ceisio darparu llety byw â chymorth personol, o safon yng Ngogledd Cymru lle gall pobl ifanc ddatblygu sgiliau cyn symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol. Mae eu prosiect cyntaf yn Wrecsam yn bwriadu cynnig llety i bobl ifanc a darparu gofal seibiant, gan hefyd ddatblygu sgiliau i fyw'n annibynnol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy greu rhan o'r datblygiad yn gaffi lle bydd y bobl ifanc yn cael meithrin sgiliau ar gyfer annibyniaeth a chyflogaeth.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i'w gwefan:**
[https://draigliving.wales/](https://draigliving.wales/)

## Canllaw: Comisiynu llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da i bobl gydag anabledd dysgu, 2019




Wedi'i chomisiynu gan Fwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru, mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar ganllawiau blaenorol ar gomisiynu llety a chefnogaeth i bobl sydd ag anableddau dysgu. Mae'n hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio llety a chefnogaeth ac yn argymell buddsoddi mewn gwasanaethau cyfoes a phriodol yn nes at adref, gan gyfrannu at 'Anableddau Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau' Llywodraeth Cymru'. Mae'r canllaw'n gofyn 12 cwestiwn allweddol y gall budd-ddeiliaid eu defnyddio er mwyn myfyrio ar arferion comisiynu. Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i drefniadau at bontio i fod yn oedolyn. Mae'n hyrwyddo dod o hyd i gartrefi go iawn i bobl, yn lle ffitio pobl i mewn i fodelau gwasanaeth presennol. Mae'r canllaw â chysylltiad agos at ganllawiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi, yn cynnwys: Comisiynu Gwasanaethau ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu: Canllaw Arfer Da.

**Mae'r canllaw i'w weld ar y ddolen ganlynol:**
[https://www.ldw.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Welsh-Guidance.pdf](https://www.ldw.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Welsh-Guidance.pdf)

## Shared Lives Plus

Yn Shared Lives, mae oedolyn neu berson ifanc sydd angen cefnogaeth hirdymor yn cael ei baru â gofalwr Shared Lives sydd wedi'i gymeradwyo yn ofalus, gan eu cynllun Shared Lives lleol sy'n cael ei redeg neu gomisiynu gan wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion y cyngor. Mae gofalwr Shared Lives yn rhannu eu cartref

a'u bywyd teuluol gyda rhywun sydd angen cefnogaeth i fyw'n dda ac yn annibynnol. Mae'r gefnogaeth ganddynt yn hyblyg ac wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn. Gall fod cyn lleied ag ychydig oriau y dydd, unwaith neu ddwy yr wythnos, i aros dros nos a seibiant i ofalwyr teuluol, neu berthynas hirdymor lle mae'r person yn symud i mewn i gartref y gofalwr Shared Lives. Mae'r gofal ganddynt yn cael ei fonitro gan gynlluniau Shared Lives sy'n cael eu rheoleiddio a'u harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau safon.

Yn genedlaethol, mae gan y rhan fwyaf o bobl mewn trefniant Shared Lives anabledd dysgu. Nid yw deddfwriaeth Cymru ar hyn o bryd yn caniatáu i bobl ifanc iau na 18 fod mewn trefniant gofal ar y cyd. Mae Shared Lives wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth fel bod pobl ifanc 16 oed a hŷn yn gymwys. Byddai hyn yn darparu opsiwn arall am lety a seibiant i bobl ifanc a'u teuluoedd yng Ngogledd Cymru, gyda'r fantais o barhad i'r drefn pan maent yn troi'n 18 oed.

**Am fwy o wybodaeth, gweler:** [https://sharedlivesplus.org.uk/our-work-and-campaigns/our-work-across-the-uk/wales/](https://sharedlivesplus.org.uk/our-work-and-campaigns/our-work-across-the-uk/wales/)

## Pecyn Adnoddau 'Where I Want To Live'

Mae 'Where I Want To Live' yn elusen o Loegr sydd wedi'i chreu gan deuluoedd ac arbenigwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o gefnogi a thywys oedolion ifanc i wneud dewisiadau am ble a sut maent yn byw. Maent wrthi'n datblygu platfform rhyngweithiol a hygyrch fydd yn galluogi oedolion ifanc sydd ag anableddau dysgu i ddarganfod eu huchelgeisiau o ran ble a sut maent eisiau byw a darparu cyngor ac awgrymiadau hawdd eu deall a'u defnyddio am yr opsiynau.

Bydd y dull rhyngweithiol a hygyrch yn eu hannog i feddwl pam y byddai rhywun eisiau symud, ble maent eisiau byw, p'un a fyddent yn hoffi rhannu gyda phobl eraill, a pha fath o gartref y byddent yn ei hoffi. Bydd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr drafod a rhannu gwybodaeth am eu hanghenion cefnogaeth. Bydd y pecyn adnoddau'n creu proffil personol y gall y defnyddwyr ei ddiweddaru a'i rannu gydag eraill fel maent yn dymuno.

Mae'r elusen ar hyn o bryd yn treialu'r pecyn adnoddau ar-lein gydag unigolion a theuluoedd yn Lloegr.

**Am fwy o wybodaeth am y pecyn adnoddau, ewch i'r wefan:** **[https://whereiwanttolive.co.uk/toolkit/](https://whereiwanttolive.co.uk/toolkit/) a/neu eu prif wefan: [https://whereiwanttolive.co.uk/](https://whereiwanttolive.co.uk/)**



## Tîm Rheoli Prosiect Gwasanaeth Anableddau Wrecsam


Mae'r tîm wedi datblygu nifer o brosiectau byw â chymorth arloesol, sy'n cynnwys tri phrosiect byw â chymorth i bob dan 18 oed. Cwblhawyd un o'r rhain ar gyfer dau 16 ac 17 oed yn ystod Covid yng Ngorffennaf 2020 ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr. Roedd un person ifanc angen dychwelyd i Wrecsam o leoliad coleg, ac roedd y llall mewn ysgol leol ac yn byw gyda'r teulu, a ddaeth yn anghynaladwy. Roedd y ddau berson ifanc mewn perygl o gael eu lleoli tu allan i'r sir gan nad yw pobl ifanc dan 18 oed yn gallu cael tenantiaeth. Gan weithio gydag un o'u darparwyr cofrestriad deuol, roedd y Cyngor yn gallu lleoli'r ddau berson ifanc mewn lleoliad byw â chymorth lleol drwy gael cytundeb gan landlord cymdeithasol cofrestredig a defnyddio'r awdurdod lleol ac un o'r teuluoedd fel gwarantwyr. Gan fod gan y darparwr gofrestriad deuol (oedolion a phlant), roedd yn caniatáu cyfle i fyw yn eu cymuned, mewn cartref am oes gan y bydd eu tenantiaethau'n parhau ar ôl 18 oed. Mae'r darparwr â chofrestriad deuol ar y fframwaith byw â chymorth rhanbarthol, sy'n golygu y gellid gwneud yr un peth mewn siroedd eraill.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Heather Henry yng Nghyngor Wrecsam ar** [Heather.Henry@wrexham.gov.uk](mailto:Heather.Henry@wrexham.gov.uk)

# TECHNOLEG GYNORTHWYOL

Mae'r adran hon yn edrych ar amryw fathau o dechnoleg a rhaglenni (apiau) cynorthwyol, sydd ar gael i helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw mor annibynnol â phosib'.

Mae **CPR Watches** gwmni o Abertawe. Maent wedi'u treialu gan bobl yn rhan o Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd. Mae'r oriawr yn defnyddio cerdyn SIM ac mae GPS, 'ffôn', botwm argyfwng a mwy arni.




## Ap Daylio



Dyma ddyddiadur bwled hunanofal hawdd ei ddefnyddio gyda nodau a chofnod hwyliau. Mae'n ffordd hawdd i bobl gofnodi sut maent yn teimlo ynglŷn â beth maent yn ei wneud. https://daylio.net/

## Straeon Digidol




Mae straeon digidol yn cyfuno iaith lafar neu ysgrifenedig gyda delweddau llonydd neu rai'n symud mewn fideos byrion. Gall straeon digidol roi gwybodaeth neu gyfarwyddyd, neu fod yn stori o ddigwyddiadau neu atgofion i'w rhannu ag eraill, a gallant fod yn ddefnyddiol pan mae adrodd stori drwy ysgrifen yn anodd i unigolion. Mae gwahanol apiau y mae modd eu defnyddio i greu stori ddigidol. Mae gweminarau y gall pobl fynd iddynt i gael mwy o wybodaeth am straeon digidol, fel y rhai gan Gymunedau Digidol Cymru, neu gan Content Creatives, cwmni creu fideos, drwy'r Citizen Network. https://citizen-network.org/


Mae enghreifftiau o sut i greu stori ddigidol i'w gweld ar y ddolen ganlynol: https://en-gb.padlet.com/dcwalestraining/Digital_Storytelling

## HandiCalendar – (Abilia)

Mae'r ap calendr yma'n galluogi pobl i reoli eu bywyd a'u trefn bob dydd, gyda'r nod o fod yn fwy annibynnol. Mae'n rhoi trosolwg dyddiol, wythnosol a misol, gyda larymau pan mae gweithgareddau'n cychwyn a gorffen. Gall perthnasau neu staff cymorth ddarparu cymorth o bell i unigolion drwy'r ap.



## Help Talk





Mae'r ap hwn yn gymorth cyfathrebu i bobl sy'n aneiriol neu sydd â nam lleferydd. Gallwch greu proffil sy'n cynnwys y gweithredoedd llafar mwyaf defnyddiol i unrhyw sefyllfa, fel digwyddiad penodol, teithio, gweithio, addysg, cymdeithasu, a llawer mwy, ac sy'n addas ar gyfer eich bywyd o ddydd i ddydd. Hefyd, i bobl sy'n llai deheuig â'u dwylo, mae botymau Ie/Na mawr.

Mae'r ap hwn ar gael mewn sawl iaith ac mae'n cynnwys cyswllt argyfwng a gwasanaethau cais am leoliad os ydych mewn perygl neu'n mynd ar goll.

**Mae'r ap ar gael ar Google Play.**

## Multi Me

Mae meddalwedd Multi Me yn cael ei dreialu trwy'r Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu fel rhan o'r ffrwd waith technoleg gynorthwyol. Mae Multi Me yn llwyfan rhwydweithio cymdeithasol diogel, cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a ddefnyddir trwy'r rhyngrwyd trwy borwr gwe. Mae'r meddalwedd Multi Me yn hygyrch ar draws amrywiaeth o ddyfeisiau gan gynnwys ffonau clyfar, llechi electronig, gliniaduron a chyfrifiaduron.




https://northwalestogether.org/wp-content/uploads/2020/11/Project-Briefing-6-full-English.pdf
https://www.multime.com/

## Here2There

Mae **Here2There.me (H2T)** yn ap cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chofnodi canlyniadau i unigolion sy'n cael cefnogaeth wedi'i thargedu. Mae'n ffordd i bobl gofnodi stori o'u cyflawniadau trwy eiriau a lluniau, a'u cysylltu â'u canlyniadau a'u nodau. Yna, mae modd rhannu'r rhain gyda'r rhai sy'n eu cefnogi, i helpu pobl i gadw cysylltiad a deall sut y gallant helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau maent eu heisiau.

https://gogleddcymrugydangilydd.org/sut-ydym-nin-cyfathrebu/

## Red Panic Button




Ffordd i bobl alw am gymorth yn gyflym. Un botwm i roi gwybod i bobl allweddol ac anfon lleoliad GPS ar yr un pryd.
https://www.redpanicbutton.com/

## Dyfeisiau i'w Gwisgo

Mae amrywiaeth o ddyfeisiau i'w gwisgo, fel oriawr, sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn helpu i reoli risgiau. Gallant hefyd helpu i hyrwyddo iechyd a lles, e.e. Fitbit.

**Os hoffech chi gael gwybod mwy am dechnoleg gynorthwyol i helpu pobl sydd ag anableddau dysgu, cysylltwch â Paul Mazurek neu Sioned Williams ar Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk**

# FFRINDIAU A PHERTHNASOEDD

Mae ffrindiau a pherthnasoedd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n cael eu cefnogi drwy nifer o brosiectau cymunedol, ac rydym yn edrych ar rai enghreifftiau arloesol o hynny yma.

## Conwy Connect – plant a phobl ifanc

Mae Conwy Connect yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru, sy'n rhoi cyfle i gymdeithasu a chyfarfod â ffrindiau newydd. Maent yn cynnwys Clwb Ieuenctid ar-lein sy'n cael ei redeg drwy'r Gwasanaeth Pontio i Deuluoedd, Hwb Theatr a dosbarth celf ar ddydd Sadwrn. Mae ganddynt hefyd ddisgos rheolaidd i bobl ifanc ac oedolion.

https://www.conwy-connect.org.uk/whats-on

## Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru

Y syniad tu ôl i Ffrindiau Gigiau yw galluogi pobl sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i fwynhau'r holl bethau gwych sy'n digwydd yn eu cymuned, yn enwedig cerddoriaeth fyw. Mae Ffrindiau Gigiau'n brosiect sy'n paru pobl gyda a heb anableddau dysgu (a/neu awtistiaeth) i fod yn ffrindiau a mynd i ddigwyddiadau gyda'i gilydd. Gyda chefnogaeth Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu, cyflwynwyd Ffrindiau Gigiau y llynedd yng Ngogledd Cymru.

https://www.ldw.org.uk/project/ffrindiau-gigiau-gig-buddies/

## Luv2Meet U

Mae Luv2MeetU yn asiantaeth gyfeillgarwch a chanlyn ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth 18 oed a hŷn. Mae'n cefnogi pobl i wneud ffrindiau, rhannu diddordebau a datblygu perthnasoedd. Mae'n cael ei redeg gan HFT yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

https://www.hft.org.uk/our-services/empowering-individuals/friendship-and-dating/luv2meetu/

## Cwmni Addysg Rhyw

Mae'r fenter gymdeithasol yma o Ogledd Cymru yn darparu addysg a hyfforddiant am iechyd rhyw a pherthnasoedd, yn cynnwys i bobl sydd ag anableddau dysgu. Mae eu prosiect Sbarc yn rhedeg prosiectau a digwyddiadau i bobl sydd ag anableddau dysgu a'u staff cefnogi i ddeall rhyw, perthnasoedd, ffrindiau a chanlyn yn well.
https://www.sexeducationcompany.org/prosiectauprojects

## Stand Gogledd Cymru

Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol nid er elw STAND Gogledd Cymru yn cynnal clybiau ieuenctid i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn lleoliadau addysg prif ffrwd ac arbenigol, fel y gallant gyfarfod ac ymuno â'i gilydd. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys Parth Ieuenctid ar-lein i bobl ifanc 12 oed a hŷn, a'r Clwb Adolygu Ffilmiau a Gemau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
https://www.standnw.org/downloads/young-people/

## Supported Loving

Wedi'i gynnal gan Choice Support, mae Supported Loving yn ymgyrch sy'n ceisio gwella cefnogaeth ar berthnasoedd a rhyw i oedolion sydd ag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Mae eu rhwydwaith o aelodau'n cynnwys sefydliadau ac unigolion ar draws y DU. Maent wedi datblygu pecyn adnoddau i helpu i gefnogi pobl sydd â phroblemau rhywioldeb a pherthnasoedd https://www.choicesupport. org.uk/about-us/what-we-do/supported-loving/supported-loving-toolkit

## The Friendship Hub, Wrecsam

Mae The Friendship Hub yn gymuned o bobl sy'n cymdeithasu gyda'i gilydd ac yn gweithio i wella cynhwysiant. Mae'n cael ei redeg gan ei aelodau. Mae ganddynt dudalen Facebook sy'n rhestru digwyddiadau a gweithgareddau lleol https://en-gb.facebook.com/YrBothWrecsam/

Os hoffech gael gwybod mwy am ffrindiau a pherthnasoedd, cysylltwch â Mark John-Williams ar Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk

# ADDYSG GYNHWYSOL

Addysg gynhwysol – sydd hefyd yn cael ei alw'n gynhwysiant – yw addysg sy'n cynnwys pawb, gyda phobl anabl (yn cynnwys rhai ag "anghenion addysgol arbennig") a rhai sydd ddim yn dysgu ynghyd mewn ysgolion prif ffrwd, colegau a phrifysgolion. Mae hefyd wedi'i sefydlu ei hun fel ffocws allweddol o ymchwil, polisi ac ymarfer addysgol yn fyd-eang. Roedd Datganiad Salamanca (UNESCO, 1994), a oedd yn rhoi hwb mawr i agenda addysg gynhwysol, yn hyrwyddo'r syniad fel y ffordd orau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cymdeithas. Yn 2006, cadarnhaodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau Pobl sydd ag Anableddau, a oedd yn cynnwys ymrwymiad sylweddol i addysg gynhwysol (Cenhedloedd Unedig, 2006). Ym mis Medi 2021, roedd 164 o wledydd wedi llofnodi'r confensiwn a 182 wedi'i gymeradwyo.

Dim ond cyffwrdd ar y cyfoeth sydd ym maes addysg gynhwysol yn lleol, rhanbarthol a rhyngwladol mae'r enghreifftiau canlynol.

## Australian Alliance for Inclusive Education – All Means All

All Means All yw Cynghrair Addysg Gynhwysol Awstralia - cynghrair genedlaethol â nifer o fudd-ddeiliaid sy'n gweithio i sicrhau system addysg gynhwysol a chwalu'r rhwystrau cyfreithiol, strwythurol ac agweddol sy'n cyfyngu ar hawliau rhai myfyrwyr, yn cynnwys rhai ag anableddau, i gael addysg gynhwysol lawn mewn dosbarthiadau arferol yn ysgolion Awstralia. Maent wedi datblygu pecyn adnoddau i addysgwyr sydd wedi'u hysgrifennu gydag arbenigwyr blaenllaw addysg gynhwysol i gynorthwyo addysgwyr i groesawu a chefnogi dysgwyr amrywiol yn eu dosbarthiadau a'u hysgolion. Gwnaed hyn ar y cyd â menter Starting with Julius IncludED.

https://allmeansall.org.au/for-educators/

## Columbia Brydeinig

Mae Columbia Brydeinig yn dalaith flaengar yng Nghanada sy'n darparu addysg gynhwysol. Mae'r fideos isod yn dangos y daith mae'r dalaith wedi bod arni o fodel gwahanedig o addysg i fodel cwbl gynhwysol. Erbyn y flwyddyn 2000, roedd Columbia Brydeinig wedi cau ei holl ysgolion arbennig sector cyhoeddus. Yn eu barn nhw, mae addysg gynhwysol yn ymwneud â dinasyddiaeth a chreu cymunedau cynhwysol.

**'How We Do School: British Columbia', ffilmiwyd yn 2019**

**Pennod 1 'Bridging the Divide'**
https://youtu.be/XT0n5uTSjyY

**Pennod 2 'Forging Friendships'**
https://youtu.be/vTxm5Rx36F8

**Pennod 3 'Learners in Progress'**
https://youtu.be/xVfUseGt5lY

**Pennod 4 'Teaming Up'**
https://youtu.be/f-5polBv44E

**Pennod 5 'Power to Parents'**
https://youtu.be/1mH0LIOfwhw

**'How we do school'** (cyfres o fideos a gynhyrchwyd gan y Lien Foundation yn Singapôr yn amlygu sut mae gwahanol wledydd yn cynnig addysg gynhwysol.)

Dilynwch y dolenni i weld eu cyfres o fideos:
https://www.youtube.com/results?search_query=how+we+do+school+lien+foundation

**'How we do school in Finland', ffilmiwyd yn 2018**

**Pennod** 1 'What's So Special'
https://www.youtube.com/watch?v=aheDzMrKuEM

**Pennod 2 'Teaching TwoGether'**
https://youtu.be/6RJ-Y3xmyFo

**Pennod** 3 'School for All'
https://youtu.be/ceWeIKLfgv8

**Pennod 4 'Out of School into the World'** https://youtu.be/WI-OIkoLDEk


# What is inclusion?

*Educational environments for students with disabilities range from a complete denial of formal educational services to equal participation in all aspects of the education system. For this paper, we describe the educational experiences of students with disabilities using the following four categories:*




EXCLUSION

***Exclusion** occurs when students are directly or indirectly prevented from or denied access to education in any form.*




SEGREGATION

***Segregation** occurs when the education of students with disabilities is provided in separate environments designed or used to respond to a particular or various impairments, in isolation from students without disabilities.*



INTEGRATION

***Integration** is a process of placing persons with disabilities in existing mainstream educational institutions, as long as the former can adjust to the standardized requirements of such institutions.*



INCLUSION

***Inclusion** involves a process of systemic reform embodying changes and modifications in content, teaching methods, approaches, structures and strategies in education to overcome barriers with a vision serving to provide all students of the relevant age range with an equitable and participatory learning experience and environment that best corresponds to their requirements and preferences.*

*Placing students with disabilities within mainstream classes without accompanying structural changes to, for example, organisation, curriculum and teaching and learning strategies, does not constitute inclusion. Furthermore, integration does not automatically guarantee the transition from segregation to inclusion.*

*Source: United Nations Committee on the Rights of Persons with Disabilities General Comment No. 4 (http://www.ohchr.org/Documents/HRBodies/CRPD/GC/RighttoEducation/CRPD-C-GC-4.doc)*

## Datblygu Dealltwriaeth o Hawliau Anabledd yn Ysgolion Cwricwlwm Cymru – Prosiect Peilot

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Anabledd Cymru i gynhyrchu a threialu syniadau a gweithgareddau cwricwlwm ar anabledd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i'w cyflwyno yn CA1, CA2 ac CA3. Roedd cam cyntaf y peilot yn cynnwys datblygu a threialu adnoddau hygyrch ar y Confensiwn i weithwyr addysgu a phlant a phobl ifanc ac roedd ysgolion yng Ngwynedd yn rhan ohono. Mae Anabledd Cymru rŵan yn chwilio am ysgolion i gymryd rhan yn ail gam y peilot.

http://worldofinclusion.com/developing-an-understanding-of-disability-rights-in-welsh-curriculum-schools-pilot-project/

**Am fwy o wybodaeth ar y prosiect, cysylltwch â Kat Watkins o Anabledd Cymru ar** kat.watkins@disabilitywales.org

## Inclusive Campus Life

Wedi ei gyd-sefydlu gan y rhaglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd, nod y rhaglen hon yw profi a datblygu arfer orau o ran cynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu mewn addysg uwch (addysg gynhwysol) trwy ddarparu systemau cyfeillion, datblygu hygyrchedd campws, darparu lleoliadau gwaith a chynnwys pobl mewn gweithgareddau addysgu. Y nod yw y bydd myfyrwyr addysg uwch arferol a myfyrwyr sydd ag anableddau deallusol yn gallu dilyn eu llwybr astudio personol wrth fwynhau bywyd campws. Bydd pobl sydd ag anableddau deallusol yn dilyn cyrsiau sy'n addas i'w huchelgeisiau a byddant yn rhan o weithgareddau addysgu fel arbenigwyr bywyd. Byddant yn addysgu myfyrwyr addysg uwch.

https://www.iclife.eu/

## Inclusive Education Canada

Mae Inclusive Education Canada (IEC) yn sefydliad cenedlaethol anllywodraethol sy'n ymrwymo i addysg o safon i bob myfyriwr mewn ysgolion a dosbarthiadau cynhwysol yng Nghanada. Mae'n cefnogi hyn drwy ddadlau o blaid polisi effeithiol a buddsoddi mewn cefnogaeth i athrawon a myfyrwyr, a datblygu capasiti mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth i wneud cynhwysiant yn realiti llwyddiannus ac ymarferol. Eu gweledigaeth yw i bob un sydd ag anableddau deallusol gael eu cynnwys yn llawn gyda'u cyfoedion mewn addysg arferol, gyda chefnogaeth briodol o blentyndod cynnar i'r cyfnod ôl-uwchradd a dysgu gydol oes yn oedolion.

https://inclusiveeducation.ca/

## Inclusive Education Wales

Grŵp Facebook a ddechreuwyd gan fam i blant ag anableddau yng Nghymru fel lle i rieni ac eraill siarad am addysg gynhwysol yng Nghymru a sut y gallwn sicrhau hynny.

Chwiliwch am **Inclusive Education Wales** ar Facebook i ymuno â'r grŵp.

## Prosiect Up the Hill, Prifysgol Finders, Adelaide, Awstralia

Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle cynhwysol a chefnogol ym Mhrifysgol Flinders i bobl sydd ag anabledd dysgu gael bod yn rhan o amgylchedd y brifysgol, datblygu sgiliau cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol a phrofi ystod o gyfleoedd a gweithgareddau addysgol. Yn debyg i'r enghraifft Coleg Trinity uchod, mae'r cyfranogwyr yn archwilio ac yn mynychu dosbarthiadau prifysgol o'u dewis gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau a gwella'r potensial am gyflogaeth yn y dyfodol. Gyda chysylltiadau yn y gymuned bydd cyfranogwyr yn agor drysau newydd ar gyfer eu dyfodol. Cefnogir y rhaglen gan gysylltiadau agos gyda rhieni, cydlynu ymdrechion gan staff wedi'u cyflogi'n benodol a gwaith mentoriaid gwirfoddol.

https://www.flinders.edu.au/engage/community/clinics/up-the-hill-project

## Cerdd a Ffilm Cymunedol TAPE

Mae TAPE yn cynnig ystod eang o gyfleoedd creadigol i grwpiau ac unigolion sy'n cynnwys y gymuned gyfan. Mae ganddynt hanes o gynnwys pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn llawn yn y cyfleoedd hyn. Maent yn ddarparwr hyfforddiant achrededig drwy Agored ac mae llawer o'r cyfleoedd yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig. Mae'r Clwb Animeiddio a'r Clwb Ieuenctid Cefn Llwyfan yn gyfleoedd penodol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
https://tapemusicandfilm.co.uk/

## The Alliance for Inclusive Education (ALLFIE)

Gweledigaeth ALLFIE yw byd lle mae addysg gynhwysol yn hawl ac nid yn her. Mae ALLFIE yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan bobl anabl, sy'n ceisio cydweithio ag unigolion a sefydliadau sy'n rhannu eu gweledigaeth. Mae ALLFIE yn arwain y lobi dros newid mewn addysg gynhwysol fel yr unig sefydliad ymgyrchu cenedlaethol dan arweiniad bobl anabl sy'n gweithio ar y mater. Mae ALLFIE yn cael ei reoli a'i arwain gan bobl anabl. Dau brif egwyddor y sefydliad yw:

- Mae Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau'n dweud bod gan blant anabl hawl i addysg gynhwysol ac mai dyna sail datblygiad llawn eu potensial a'u hunanwerth, cryfhau hawliau dynol a chymryd rhan yn effeithio mewn cymdeithas.

- Mae'r Model Anabledd Cymdeithasol yn dweud bod pob yn "anabl" nid oherwydd eu namau (fel dallineb neu awtistiaeth), ond oherwydd methiant cymdeithas i roi ystyriaeth i'w hanghenion. Mae bod yn anabl yn rhan normal o sbectrwm bywyd dynoliaeth: mae'n rhaid i gymdeithas ddisgwyl bod pobl anabl a'n cynnwys ni. Mewn addysg, mae hyn yn golygu bod rhaid i'r system gydnabod ei bod yn creu rhwystrau i ddysgwyr anabl sydd angen eu datrys, yn hytrach na disgwyl i ddysgwyr anabl addasu i'r system.

https://www.allfie.org.uk/

## Coleg Trinity, Dulyn

Mae'r Dystysgrif mewn Celfyddydau, Gwyddoniaeth ac Ymarfer Cymhwysol yn hynod arloesol yn nhermau Gwyddelig a rhyngwladol ac yn cyflwyno dull cyffrous sy'n creu cyfleoedd astudio trydydd lefel i bobl ag anableddau deallusol. Mae'r rhaglen wedi ei hanelu at drawsnewid posibiliadau sydd ar gael i bobl ag anabledd deallusol wrth iddynt symud tuag at fywyd fel oedolyn a'r gweithlu. Yn y pen draw, y nod yw cyflwyno'r model hwn i sefydliadau trydydd lefel eraill sydd â diddordeb yn Iwerddon a mannau eraill.

https://www.tcd.ie/tcpid/courses/certificate/

## Cysylltiadau cynhwysiant Ysgol y Gogarth

Mae gan Ysgol y Gogarth yng Nghonwy gyswllt cynhwysiant gydag Ysgol John Bright. Canfuwyd fod rhai myfyrwyr yn Ysgol y Gogarth angen mwy o her academaidd ac mewn ymateb bu i'r ysgol ddarparu cyrsiau TGAU a Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, roedd diffyg cynhwysiant cymdeithasol rhai myfyrwyr yn parhau yn rhwystr i gael lle mewn coleg AB lleol. Bu i Ysgol y Gogarth sefydlu cyswllt cynhwysiant gydag Ysgol John Bright i 12 myfyriwr dreulio 50% neu fwy o'u hamser yn Ysgol John Bright yn dilyn cyrsiau TGAU. Mae'r cyswllt hwn wedi ffynnu, gyda lefel cyflawniad da ar TGAU a Safon UG. Mae ganddynt ystafell ddosbarth benodol ac mae'r cyswllt bellach wedi sefydlu'n dda.

# GWASANAETHAU GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH ANNIBYNNOL

Mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth **annibynnol** i bobl ifanc ag anableddau dysgu ynghlwm â'r system addysg a phontio hefyd.

## Gwasanaeth Pontio Teuluoedd Conwy Connect

Wedi'i ariannu drwy'r Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu, mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth annibynnol am ddim i bobl ifanc a'u teuluoedd sy'n cael anawsterau ar y cyfnod pontio ar draws Gogledd Cymru (o'r ysgol a/neu gwasanaethau plant i oedolion). Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n dda i gysylltu pobl ifanc ag ystod ehangach o ddewisiadau a chyfleoedd cymunedol ac i'w helpu i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol newydd a datblygu hyder drwy amryw weithgareddau cymdeithasol, er enghraifft clwb ieuenctid, disgos a gweithgareddau awyr agored. Am fwy o wybodaeth, ewch i: **https://www.conwy-connect.org. uk/transtition**

## KIDS SENDIASS (comisiynwyd gan ystod o Awdurdodau Lleol yn Lloegr)

Mae KIDS yn un o'r darparwyr arweiniol o Wasanaethau Gwybodaeth Cyngor a Chefnogaeth Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDIASS) sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth am anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Mae'r gwasanaethau am ddim, yn ddiduedd, cyfrinachol a chywir. Mae'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc 0-25 oed sydd neu a allai fod ag AAAA, eu rhieni a gofalwyr.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod lleol yn Lloegr fod â gwasanaeth SENDIAS ac mae KIDS yn darparu nifer o'r gwasanaethau hyn ar draws y wlad. Mae gan bob gwasanaeth SENDIAS KIDS dudalen leol gyda'u manylion cyswllt, gwybodaeth leol ac adnoddau lleol.

**https://www.kids.org.uk/sendiass**

## SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru'n elusen genedlaethol, unigryw i Gymru, a sefydlwyd yn 1986. Maent yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol am ddim i helpu i gael yr addysg gywir ar gyfer plant a phobl ifanc gyda phob math o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau. Maent yn rhoi cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys asesiadau, datganiadau anghenion addysgol arbennig, bwlio, presenoldeb ysgol, gwaharddiadau, iechyd a gofal cymdeithasol a gwahaniaethu. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cefnogaeth benodol i bobl ifanc.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i'w gwefan, sef: https:// www.snapcymru.org/**

## '16+ Transitions Guide: For parents and carers of young people with special educational needs and disabilities' Cyngor Sir Suffolk

Enghraifft o Ganllaw Pontio gan Awdurdod Lleol sy'n cynnwys 'Cynnig Lleol' Suffolk gyda phwyslais cryf ar gyflogaeth, yn ogystal â meysydd eraill bywyd sy'n bwysig i bobl ifanc.

**https://www.suffolk.gov.uk/assets/suffolk.gov.uk/suffolk-16-transition-guide-2nd-Ed.pdf**

## Pecyn Cymorth Pontio (o brosiect Real Opportunities Anabledd Dysgu Cymru)

Roedd y prosiect Real Opportunities yn cynnig model holistig o gymorth i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Roedd cefnogaeth yn seiliedig ar y 5 llwybr i fod yn oedolyn annibynnol:

- Dysgu Gydol Oes
- Cyflogaeth
- Cyfleoedd Hamdden
- Perthnasoedd
- Byw'n Annibynnol

Mae'r adnoddau yn y pecyn cymorth wedi'u trefnu'n wahanol feysydd cefnogaeth. Mae mwy o wybodaeth am fodel, strwythur, a chynnwys y pecyn yma: **www.ldw.org.uk/cy/resources/** chwiliwch am y Pecyn Cymorth Pontio Real Opportunities yn y ddewislen.

# DIWALLU ANGHENION DATBLYGU UNIGOL

Mae'r adran hon yn cynnwys amryw ddulliau amgen yn canolbwyntio ar yr unigolyn o ddiwallu anghenion a chanlyniadau unigol dinasyddion yn y gymuned.

## Defnydd o Daliadau Uniongyrchol:

- Mae taliadau uniongyrchol yn caniatáu i ddinasyddion sydd angen cefnogaeth Gwasanaethau Cyhoeddus ddewis a phrynu eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain. Maent ar gael i ofalwyr sydd angen cefnogaeth hefyd. Maent yn cael eu defnyddio i brynu gwasanaethau neu gyfarpar ac yn cynnig mwy o ddewis, rheolaeth ac annibyniaeth.
- Rhoddodd Gyrfa Cymru enghraifft o ddyn ifanc a ddefnyddiai'r taliadau i dalu i Gynorthwyydd Personol i'w helpu i deithio i roi areithiau. Cafodd ei fentora ar gyfer y rôl gan unigolyn arall oedd ag anghenion ychwanegol.
- Enghraifft greadigol arall o daliadau uniongyrchol oedd dyn ifanc sy'n talu am gefnogaeth 2-1 dyddiol i'w helpu i wneud pa bynnag weithgaredd mae eisiau ei wneud y diwrnod hwnnw. Mae bod yn actif yn ei helpu i reoli ei iselder a'i orbryder. Mae'n cyflogi dynion yr un oed ag o gan ei fod eisiau ymddangos ei fod gyda ffrindiau yn hytrach na chefnogaeth yn y gymuned.

Dilynwch y ddolen isod i weld ffilm fer am enghraifft o ddefnyddio taliadau uniongyrchol:
www.youtube.com/watch?v=sTG_0kG6lSQ

## Cylchoedd Cefnogaeth

Dull anstatudol o gefnogi pobl ag anableddau dysgu i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywyd; mae'n golygu dod â ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol ynghyd i greu rhwydwaith cefnogi personol o amgylch yr unigolyn. Mae'r prosiect I-Team gan Do-It Sir y Fflint yn enghraifft dda ac wedi cefnogi nifer o bobl ifanc wrth bontio i fynegi barn gryfach ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a datblygu cynllun personol i gyflawni hyn.

https://gogleddcymrugydangilydd.org/cylchoedd-cefnogaeth/

## Dyfodol Denamig

Mae Canolfan Dynamic ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anableddau yn Wrecsam yn elusen hirsefydlog i blant 8–25 oed sydd â diagnosis o anabledd. Maent yn darparu ystod o wasanaethau, yn cynnwys rhaglen Dynamic Futures i rai 15–25 oed sy'n byw yn Wrecsam. Drwy ddilyn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae eu darpariaeth 3 mis yn ceisio gwella annibyniaeth, hyder, proses benderfynu a sgiliau cymdeithasol person ifanc. Maent yn ceisio pontio'r bwlch rhwng unigrwydd a dibyniaeth, ac integreiddio cymunedol, drwy gynnig help llaw i'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth i fod yn rhan o'r gymuned a datblygu annibyniaeth. Nid oes unrhyw ddull penodol o weithio; mae pobl person ifanc yn cael ei gefnogi i ddatblygu sgiliau yn y meysydd sy'n bwysig iddynt a'r rhai lle maent yn cael trafferth personol. Gallai hyn gynnwys cwsg, cludiant, hyfforddiant, dweud faint yw hi o'r gloch, gwneud ffrindiau, mynd i'r coleg a chael gwaith. Gwneir atgyfeiriadau at arbenigwyr lle bo hynny'n briodol. Mae gan eu hadeilad gyfleusterau lle mae modd datblygu sgiliau byw'n annibynnol, fel dwy gegin lle mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddysgu sut i wneud diodydd poeth ac oer, sut i wneud pryd o fwyd a sut i olchi dillad. Mae pobl ifanc hefyd yn cael eu cefnogi i agor cyfrif banc os nad oes ganddynt un, a gyda sgiliau sylfaenol fel cyllidebu, gwneud galwadau ffôn, newid bwlb golau, perthnasoedd cadarnhaol a chael trefn ar filiau cyfleustodau. Mae pwyslais ar ddatblygu sgiliau drwy weithgareddau hwyl, ac maent yn rhoi llai o gymorth ymarferol yn raddol wrth i hyder ddatblygu. Gall ffurflenni atgyfeirio gael eu llenwi gan unrhyw un dros 18 oed, yn cynnwys pobl ifanc eu hunain.

http://dynamicwrexham.org.uk/

## Just Enough Support:

Mae'r dull hwn yn defnyddio cefnogaeth sy'n bodoli yn hytrach nag edrych ar wasanaethau y telir amdanynt. Bu i riant roi enghraifft o berson ifanc dal yn yr ysgol nad oedd eisiau mynd i'r coleg. Yn hytrach maent yn defnyddio Just Enough Support i gyrraedd nodau annibyniaeth personol fel teithio ar fws ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr â gwirfoddoli, gyda'r nod o ymgeisio am waith a chael swydd. Daeth cysyniad y dull hwn o bapur All Together Now.

**http://www.helensandersonassociates.co.uk/wp- content/uploads/2015/02/all-together-now1.pdf**

## Preparing for Adulthood (gwefan)

Mae'r rhaglen Preparing for Adulthood yn cael ei darparu gan y Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol (NDTi). Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Adran Addysg y DU yn rhan o gonsortiwm Delivering Better Outcomes Together. Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o arbenigedd a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a theuluoedd yn lleol ac yn genedlaethol ac ar draws llywodraeth, i gefnogi pobl ifanc i droi'n oedolion gyda gwaith â thâl, iechyd, opsiynau byw'n annibynnol a ffrindiau, perthnasoedd a chynhwysiant cymunedol.

Mae eu gwefan yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ac adnoddau ar wahanol feysydd bywyd. Er bod rhai'n benodol i Loegr, mae llawer ar themâu cyffredinol berthnasol.

**https://www.preparingforadulthood.org.uk/downloads**

## Peilot Broceru Cefnogaeth

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu wedi ariannu Imagineer i hyfforddi 18 o Froceriaid Cefnogaeth yng Ngogledd Cymru. Mae pob Brocer Cefnogaeth yn cael eu hannog i gofrestru â'r Rhwydwaith Broceru Cenedlaethol. Gall Broceriad Cefnogaeth helpu pobl i gael hyd i'r gefnogaeth / gweithgaredd / adnodd cywir iddyn nhw, gyda'u taliadau uniongyrchol **https://www.imagineer.org.uk/support-brokerage-network-membership/**

**Os hoffech chi ddarganfod mwy am ddulliau amgen o ddiwallu anghenion a chanlyniadau datblygu unigol, cysylltwch â Mark John-Williams ar Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk**




MY DREAM
GOOD SUPPORT
ABOUT ME

# CYNLLUNIO SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN

Mae'r adran hon yn edrych ar adnoddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae personoli wrth wraidd gweledigaeth Llywodraeth Cymru am newid mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys addysg, fel mae Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ei nodi. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i Ddeddf ADY. Mae ystod eang o adnoddau i helpu ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gyflwyno gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ymarferol i mewn i'r amgylchedd dysgu. Rydym ni wedi amlygu rhai o'r rhain isod.

### Prosiect Real Opportunities Anabledd Dysgu Cymru: Adnoddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a

Wedi'i ddatblygu drwy Brosiect Real Opportunities i bobl ifanc ag anableddau dysgu sydd rhwng 14 a 19 oed, mae'r pecyn cymorth pontio'n cynnwys adran ar adnoddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a phontio. Mae'r adnoddau hyn i gyd i'w cael mewn un lle – yng Ngweithlyfr achrededig Agored Cymru.
Mae'r gweithlyfr yn cynnwys eglurhad am gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; amryw adnoddau i wneud hynny, a chyfres o daflenni gwaith i'r dysgwr eu cwblhau. Mae'r adnoddau'n cynnwys:

- Gwneud Cynlluniau Gweithredu (MAPs)
- Cynllunio Sawl Yfory gyda Gobaith (PATH)
- Cynllunio Dyfodol Personol
- Cynllunio Ffordd o Fyw Hanfodol (wedi'i ddylunio ar gyfer gweithio gyda phobl nad ydynt yn cyfathrebu a/neu sydd ag ymddygiad a allai fod yn heriol)
- Portffolio Personol
- Cylch Perthnasoedd
- Cylch Cefnogaeth

Gweler: https://www.ldw.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Agored-Cymru-PCP.doc

### Proffiliau Un Tudalen mewn Addysg: Helen Sanderson Associates

Cafodd y proffil un tudalen cyntaf ei greu gyda merch Helen Sanderson, Laura, i helpu ei hathrawon i ddod i'w hadnabod yn well. Mae proffil un tudalen yn nodi'r holl wybodaeth bwysig. am blentyn neu berson ifanc ar un ddalen o bapur o dan dri phennawd: beth mae pobl yn ei werthfawrogi amdanaf, beth sy'n bwysig i mi a'r ffordd orau i fy nghefnogi. Ar eu gwefan mae dolenni i enghreifftiau o broffiliau un tudalen a grëwyd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac un i blentyn ag anghenion addysgol arbennig.

http://helensandersonassociates.co.uk/person-centred-practice/one-page-profiles/one-page-profiles-education/

Mae ganddynt hefyd dempledi proffil un tudalen am ddim y mae modd eu haddasu ac mae modd eu lawrlwytho o'u gwefan:
http://helensandersonassociates.co.uk/person-centred-practice/one-page-profiles/one-page-profiles-education/

### 'Personalising Education: A guide to using person-centred practices in schools' (Helen Sanderson, Gill Goodwin ac Elaine Kinsella gyda Tabitha Smith, Vicky Jones, Cathy Higgins, Jane Ralphs a Lyn Byatt)

Mae'r ddogfen hon, wedi'i chreu gan athrawon, ymarferwyr a seicolegwyr addysg, yn disgrifio 14 o adnoddau ac ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae modd eu defnyddio mewn ysgolion a cholegau. Mae'n trafod manteision defnyddio'r adnoddau hyn yn y lleoliadau addysg dan sylw, ynghyd â chrynodeb am yr adnoddau. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhan ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

http://helensandersonassociates.co.uk/wp-content/uploads/2018/05/A-guide-to-using-person-centred-practices-in-school.pdf

## ‘Planning My Future Life: Preparing for Adulthood’

Mae ‘Planning My Future Life’ yn llyfryn cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r adnoddau wedi’u cynllunio’n benodol i ddeall beth sy’n bwysig i berson ifanc a’r gefnogaeth maent ei hangen. Mae’r adnoddau yn y llyfryn hwn wedi’u rhestru isod:

- ‘Like & Admire’
- ‘Relationship Map’
- ‘Important to / Important for’
- ‘Working / Not working’
- ‘My Outcomes’

Mae’r llyfryn ar gael i’w lawrlwytho a’i addasu yma: https://www.preparingforadulthood.org.uk/SiteAssets/Files/Planning%20My%20Future%20Life%20editable/Planning%20My%20Future%20Life%20-%20Booklet%20-%20Editable.pdf

Mae adnoddau ychwanegol i gyd-fynd â’r llyfryn hefyd, yn cynnwys:

- ‘One Page profile’
- ‘What Matters Island’
- ‘Inclusion Web’
- ‘Good Day / Bad Day’
- ‘Perfect Week’
- ‘Decision Making Profile’
- ‘Communication Passport’
- ‘Matching Support’
- ‘Presence to Contribution’

Gweler: https://www.preparingforadulthood.org.uk/downloads/person-centred-planning/additional-helpful-tools-planning-my-future-life.htm

## ‘Secondary Schools and personalising education’ – Helen Sanderson Associates

Cyfres o nodiadau ar ddefnyddio dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn gwahanol sefyllfaoedd mewn ysgolion uwchradd. Pynciau a drafodir:

- Sut allaf i wella’r ysbryd yn y tîm a sicrhau fy mod yn dal gafael ar staff da?
- Sut allaf i gefnogi disgyblion i fod yn hunanymwybodol a chymryd cyfrifoldeb am eu haddysg eu hunain?
- Sut allaf i sicrhau bod systemau rheoli ymddygiad yn canolbwyntio ar y disgybl?
- Sut allaf i gynnwys disgyblion yn y ffordd mae’r ysgol yn datblygu?

**http://helensandersonassociates.co.uk/education/ secondary-schools/**

## Proses ‘Working Together for Change’, Helen Sanderson Associates

- Mae ‘Working Together for Change’ yn defnyddio proses 8 cam i sicrhau eich bod yn ystyried anghenion, dymuniadau a dyheadau’r bobl rydych yn eu cefnogi a’ch budd-ddeiliaid eraill.
- Mae’r broses yn casglu gwybodaeth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn o adolygiadau a chynlluniau gofal a chymorth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn helpu’r sefydliad i weld y tueddiadau sydd yn y data. Bydd hyn y dangos beth sy'n gweithio'n dda, a beth hoffai pobl ei weld yn newid.
- Yn dilyn hyn, mae’r broses yn cefnogi cyfranogwyr i greu cynllun i symud ymlaen, y gellir ei weithredu dros amser a’i adolygu yn rheolaidd.

Mae ‘Working Together for Change’ yn helpu i gefnogi pobl yn well trwy:

- Ddylanwadu ar newid strategol sefydliadol, ar sail beth y gwyddom sydd wir o bwys i bobl, er mwyn i ni ddarparu gwasanaethau gwell, mwy personol yn y pen draw
- Helpu staff i gael llais mewn strategaeth sefydliadol
- Sicrhau bod gwasanaethau wedi eu dylunio ar sylfaen o gyd-gynhyrchu

http://www.helensandersonassociates.co.uk/wp-content/uploads/2016/01/Working-together-for-Change.pdf

Os hoffech chi gael gwybod mwy am gynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, cysylltwch â Mark John- Williams neu Sioned Williams ar Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk

# DARPARIAETH ANGHENION CYMHLETH ÔL-16

Mae’r adran hon yn edrych ar ddetholiad o bartneriaethau ar hyd a lled Cymru sydd wedi dod ynghyd i ddarparu addysg ôl-16 a hyfforddiant sgiliau i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog ac anghenion cymhleth yn eu cymuned leol.

## Rhaglen Camu ’Mlaen, Ceredigion

Yn ymateb i’r Ddeddf ADY a’r angen i ddatblygu darpariaeth ôl-16 i rai ag anghenion cymhleth, mae Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â Choleg Ceredigion a phartneriaid eraill, yn cynllunio ar gyfer nifer o bobl ifanc ag anghenion cymhleth i allu aros yn eu cymuned i gael addysg ôl-16. Bydd cyfuniad o addysg coleg a darpariaeth canolfan ddydd yn creu amserlen pum diwrnod yr wythnos wedi ei hanelu at ddatblygiad personol, gyda rhai pobl ifanc hefyd yn cael mynediad at gyfleoedd byw â chymorth. Maent yn cynnig pontio o Ionawr i Orffennaf o’r ysgol i'r coleg lleol a gwasanaethau dydd oedolion un diwrnod yr wythnos. Mae'r prosiect wedi cynnwys y coleg addysg bellach lleol, addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, tai ac iechyd ac mae hefyd yn cynnig gwasanaethau therapiwtig.

https://walesnewsonline.com/new-ceredigion-centre-development-for-post-16-complex-needs-provision/

## Darpariaeth leol Conwy i anghenion cymhleth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar y cyd â Choleg Llandrillo a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wrthi’n datblygu darpariaeth leol o fewn Conwy i gefnogi unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Bydd gan unigolion sydd ag anghenion cymhleth fynediad at gwricwlwm personol mewn amgylchedd priodol. Mae’r gwaith adeiladu ar y cam dylunio ar hyn o bryd ac mae pob sefydliad yn cyfrannu i sicrhau bod yr adeilad yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae Conwy, BIPBC a Choleg Llandrillo wedi dynodi bod hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu yn lleol yn unol â’r ‘Ddeddf’. Mae’r datblygiad hwn yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth presennol rhwng y Cyngor a’r Coleg ar gyfer unigolion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog wedi ei anelu at fodloni eu hanghenion datblygu unigol yn lleol. (Gweler y ddau bwynt nesaf isod).

## Darpariaeth Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog Conwy yn y gymuned

Mae Tîm Anableddau Cyngor Conwy a Choleg Llandrillo yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mynediad i unigolion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog i sgiliau byw'n annibynnol yn y gymuned. Mae’r model yn golygu bod y Cyngor yn darparu cymorth gofal cymdeithasol ynghyd ag eiddo hygyrch o fewn safle Canolfan Marl a’r coleg yn darparu tiwtor ar y safle i gyflwyno cwricwlwm sgiliau byw'n annibynnol a synhwyraidd i unigolion na fyddent fel arall yn gallu cael darpariaeth sgiliau byw’n annibynnol yn y coleg. Mae’r gwasanaeth hwn wedi’i sefydlu ers 3 blynedd. Mae cyfle wedi codi i ddarparu adeilad unigryw yn agos at gampws y coleg. Mae’r gwaith adeiladu ar y cam dylunio ar hyn o bryd ac mae pob sefydliad yn cyfrannu i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog.

## Ymdriniaeth Hybrid ar gyfer Sgiliau Byw’n Annibynnol

Yn gysylltiedig â’r uchod, mae’r tîm wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Llandrillo i ddarparu mynediad iddynt i’r fflat ar safle Canolfan Marl i’w ddefnyddio yn ystod y tymor coleg gan fyfyrwyr. Gall myfyrwyr ymarfer sgiliau byw'n annibynnol mewn amgylchedd ‘go iawn’. Mae’r gwasanaeth hwn wedi’i sefydlu ers 3 blynedd. Ma cyfle wedi codi i ddarparu 3 fflat i ddarparu cwricwlwm estynedig i’r bobl ifanc hynny sy’n dilyn cyrsiau sgiliau byw’n annibynnol Llandrillo. Mae’r gwaith adeiladu ar y cam dylunio ac mae pob sefydliad yn cyfrannu i sicrhau bod y fflatiau’n diwallu anghenion pobl ifanc ag ADY. Bydd un o’r fflatiau’n gwbl hygyrch i ddarparu cyfleoedd i unigolion sy’n cael darpariaeth y coleg ar gyfer anghenion dysgu dwys a lluosog i brofi cwricwlwm estynedig dros nos. Bwriad Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy yw darparu unrhyw gefnogaeth ‘yn y cartref’ sydd ei hangen yn rhan o’r ddarpariaeth.

# CYFLOGAETH Â CHEFNOGAETH

Mae'r adran hon yn edrych ar arferion da o ran cefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu i gael gwaith cyflogedig.

## Beth yw Cyflogaeth â Chefnogaeth?

Mae Cyflogaeth â Chefnogaeth wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ers degawdau fel model wedi'i bersonoli er mwyn cefnogi pobl ag anableddau sylweddol i gael ac aros mewn gwaith cyflogedig. Nid yw Cyflogaeth â Chefnogaeth yn cadw at fodel parodrwydd am waith. Yn hytrach, mae'n dilyn dull Lleoli, Hyfforddi a Chynnal. Mae lleoli, hyfforddi a chynnal yn effeithiol gan ei fod yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod pobl ag anableddau dysgu yn dysgu'n well yn y fan a'r lle. Un o brif nodweddion y model yw adeiladu cefnogaeth naturiol yn y gweithle wedi'i hategu gan sgiliau hyfforddwr swydd arbenigol. Mae'r hyfforddwr swydd yn darparu cefnogaeth ymarferol a strwythuredig i'r dinesydd a'r darpar gyflogwr i gael a dal gafael ar swydd.

Mae Cyflogaeth â Chefnogaeth yn dilyn model 5 cam o gefnogaeth ac mae set o egwyddorion craidd yn sail iddo. Wrth wraidd y model 5 cam hwn, mae'r syniad y gall unrhyw un fod mewn gwaith os ydynt eisiau gwaith cyflogedig a bod digon o gymorth ar gael. Mae Cymdeithas Cyflogaeth â Chefnogaeth Prydain wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer cyflogaeth â chefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth, gweler: https://www.base-uk.org/about-supported-employment

## Cyfleoedd cyflogaeth wedi'u teilwra

Mae Ace Anglia wedi cyd-gynhyrchu model i gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n derbyn gwiriadau iechyd blynyddol yn Suffolk. Nodwedd unigryw y model yw ei fod yn cyflogi a hyfforddi pobl ag anableddau dysgu i fod yn addysgwyr i'w cymheiriaid. Gyda chymorth arian trawsnewid, mae Conwy Connect wedi addasu'r model hwn ar gyfer Gogledd Cymru gyda chefnogaeth fentora gan Ace Anglia.

https://www.aceanglia.com/what-we-do/peer-educator-networks/

https://www.conwy-connect.org.uk/news-om/2021/4/12/new-health-check-service

## Cyflogaeth a Chefnogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau

Fis Ebrill 2022, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y bydd yn darparu cyllid grant i tua 20 Cyngor Sir ac Awdurdod Unedol (yn cynnwys Cynghorau Metropolitanaidd a Bwrdeistrefi Llundain) yng Nghymru a Lloegr i fod yn rhan o fenter cyflogaeth â chefnogaeth. Mae'r fenter wedi'i hanelu at helpu oedolion sydd ag anableddau dysgu, awtistiaeth neu'r ddau, i gael gwaith cystadleuol gan ddarparu'r gefnogaeth maent ei hangen i gadw eu swydd ("Cyflogaeth â Chefnogaeth"). Bydd y fenter hon yn helpu â thwf Cyflogaeth â Chefnogaeth dan arweiniad awdurdodau lleol. Trwy gydariannu a darparu'r fframwaith ar gyfer cyflogaeth â chefnogaeth, nod yr Adran Gwaith a Phensiynau yw sicrhau Cyflogaeth a Chefnogaeth o safon sy'n cyd-fynd â'r model 5 cam. Nod mwy hirdymor y fenter yw darparu mwy o dystiolaeth i awdurdodau lleol o werth Cyflogaeth â Chefnogaeth a helpu i adeiladu buddsoddiad cyson gan awdurdodau lleol mewn Cyflogaeth â Chefnogaeth i sicrhau cyflogaeth effeithiol i bobl sydd ag anableddau dysgu, awtistiaeth neu'r ddau. Mae hyn yn gydnabyddiaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mai'r model cyflogaeth â chefnogaeth 5 cam a hyfforddiant swydd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith.

https://www.base-uk.org/trailblazer

## Interniaethau â chefnogaeth DFN Project Search / Engage to Change

Mae gan Ogledd Cymru 4 rhaglen interniaeth â chymorth Project Search / Engage to Change. Project Search yw'r enw brand ar gyfer rhaglen interniaeth ddwys a chefnogaeth sy'n dilyn y model cyflogaeth â chefnogaeth o arfer orau. Fe'i hanelir at bobl ifanc 16 i 25 oed sydd ag anableddau dysgu ac awtistiaeth ac mae fel arfer yn cynnwys partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, darparwr cyflogaeth â chefnogaeth lleol, busnes a darparwr hyfforddiant/addysg. Prif ganlyniad y rhaglen yw galluogi pobl ifanc i sicrhau gwaith cyflogedig llawn amser, cystadleuol mewn amgylchedd gwaith integredig. Mae gan Project Search gyfradd canlyniad cyflogaeth o 60 i 70%. DFN Project Search sydd â'r hawliau rhyddfraint meistr yn y DU. Yng Nghymru, mae'r rhaglen peilot Engage to Change yn treialu'r model interniaeth â chefnogaeth ar draws Cymru.

Prosiectau interniaeth â chefnogaeth yng Ngogledd Cymru:

**Dwyrain**
HFT/Cyngor Sir y Fflint, Cymdeithas Dai Clwyd Alyn (DFN Project Search) a GXO Logistics ar gyfer pobl ifanc a pheilot newydd yn 2022 i oedolion ag anableddau dysgu. Dyma'r peilot Ewropeaidd cyntaf i oedolion.

**Canolog**
Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Agoriad Cyf, Ysbyty Glan Clwyd (DFN Project Search ac Engage to Change)

**Gorllewin**
Agoriad Cyf, Ysbyty Gwynedd, Coleg Menai (Engage to Change) ac interniaeth wledig â chefnogaeth yn Ne Gwynedd mewn partneriaeth â Choleg Dolgellau.

http://www.engagetochange.org.uk/
https://www.dfnprojectsearch.org/

## Partneriaeth Engage to Change, Cymru

Wedi'i arwain gan Anabledd Dysgu Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, mae partneriaeth Engage to Change wedi bod yn gweithio ledled Cymru i gefnogi pobl ifanc 16–25 oed sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gyflawni eu potensial. Gyda dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn,

Mae Engage to Change yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a chyflogwyr i:

- oresgyn rhwystrau i gyflogaeth
- datblygu sgiliau trosglwyddadwy
- cynnig profiad gwaith di-dâl
- darparu cyflogaeth gyflogedig â chefnogaeth
- darganfod cyfleoedd gwirfoddoli
- cynnig mynediad i interniaethau â chefnogaeth

Mae'r bartneriaeth yn dilyn y model cyflogaeth â chefnogaeth o arferion da ac yn defnyddio hyfforddwyr swyddi arbenigol i gael gwaith cyflogedig. Mae'r cyllid ar gyfer y fenter hon yn dod i ben yn 2022 ond mae wedi llwyddo i adael gwaddol fel y nodir uchod mewn perthynas â pholisi cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cymru.

Mae canfyddiadau allweddol o adroddiad gwerthuso'r 4 blynedd gyntaf yn cynnwys:

- Bod pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn gallu gweithio os oes ganddynt y swydd gywir a'r gefnogaeth gywir. Mae'r gefnogaeth fwyaf effeithiol yn arbenigol ac yn cael ei darparu gan Hyfforddwr Swydd o fewn Model Cyflogaeth â Chefnogaeth.
- Y prif ganlyniadau mae teuluoedd a phobl ifanc wedi'u nodi yw gwell annibyniaeth a hyder, gwell iechyd meddwl, gwell ansawdd bywyd, teimladau cadarnhaol fel hunan-barch a balchder am fod mewn gwaith a mwy o gynhwysiant cymdeithasol.

Mae adroddiad gwerthuso'r 4 blynedd gyntaf i'w weld yma:
https://www.engagetochange.org.uk/news/research/

## Fair Shot Café

Mae Fair Shot Café yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd i gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i gael gwaith cystadleuol. Bob blwyddyn, maent yn cynnig cyfle i 21 oedolyn ifanc ag anabledd dysgu i gael profiad gwaith go iawn drwy eu rhaglen hyfforddi. Mae'r hyfforddeion (rhwng 18 a 26 oed) yn treulio diwrnod yn y coleg ar gyfer ochr addysgiadol y rhaglen a'r pedwar diwrnod arall yn y caffi'n datblygu sgiliau a phrofiad ymarferol. Yn dilyn y rhaglen, maent yn helpu'r hyfforddeion i gael eu swydd ddelfrydol nesaf ac yn eu parhau i gefnogi am y 6 mis cyntaf.

https://www.fairshot.co.uk/

## Rhaglen Cyflogaeth Anabledd Dysgu GIG Lloegr

Wedi'i lansio yn 2015, mae'r Rhaglen Cyflogaeth Anabledd Dysgu yn cefnogi datblygu atebion lleol a chenedlaethol i ddileu rhwystrau a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu yn y GIG yn Lloegr.  Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Datblygu Addewid Cyflogaeth Anabledd Dysgu;
- Cynhyrchu canllaw recriwtio a chanllaw ar ffurflen gais am swydd hawdd ei ddeall;
- Gweithio mewn partneriaeth â Rhaglen Gofal Trawsnewid Gofal GIG Lloegr i gefnogi datblygu llwybrau cyflogaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu.

https://www.england.nhs.uk/about/equality/equality-hub/ld-emp-prog/

## Cyngor Sir Penfro, Rhaglen Cyflogaeth â Chefnogaeth Diwydiannau Norman

Mae Diwydiannau Norman yn fusnes â chefnogaeth sy'n cyflogi dros 60 o bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith. Yn ogystal â chynnig cyflogaeth â chefnogaeth gyda thâl, mae Diwydiannau Norman hefyd yn cynnig profiad gwaith, hyfforddiant a gwasanaeth dydd yn y gwaith i bobl ag anabledd neu gyflwr sy'n cyfyngu ar waith. Mae'r Rhaglen yn cynorthwyo pobl i ennill mwy o annibyniaeth a hunan-barch mewn lleoliadau gwaith â chefnogaeth, sy'n cynnwys eu ffatri, gweithdy crefftau, siop fferm a chaffi a'r prosesau cysylltiedig o weinyddu, dylunio a chyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol. https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-cymunedol/diwydiannau-norman

## Fframwaith Cyflogaeth â Chefnogaeth Llywodraeth yr Alban

Cafodd Fframwaith Cyflogaeth â Chefnogaeth Llywodraeth yr Alban ei gyhoeddi yn Chwefror 2010 gan Lywodraeth yr Alban a COSLA. Mae Llywodraeth yr Alban, ynghyd â phartneriaid eraill, yn ceisio gwella ansawdd a chysondeb cyflogaeth â chefnogaeth yn yr Alban. Wedi'i ariannu gan y Llywodraeth yno, mae Gwobr Datblygiad Proffesiynol Cyflogaeth â Chefnogaeth (SQA Lefel 7) wedi'i chreu gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban, sef y cymhwyster proffesiynol cyntaf sy'n benodol i'r diwydiant. Mae Undeb yr Alban dros Gyflogaeth â Chefnogaeth a'r Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chefnogaeth yn gweithio i gynhyrchu safonau ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth â chefnogaeth; ac mae SUSE yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i lunio set o ganlyniadau ar gyfer cyflogaeth â chefnogaeth i'w defnyddio i gomisiynu, dylunio a gwerthuso gwasanaethau cyflogaeth â chefnogaeth.

http://socialfirms.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/A-Working-Life-for-All-Disabled-People-Main-Report.pdf

https://www.base-uk.org/nos

## Rhaglen Wirfoddoli i Oedolion Camu i Mewn i Waith gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Er nad yw'n benodol ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu, mae'r Rhaglen Camu i Mewn i Waith wedi'i defnyddio gan lawer o oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith di-dâl am 6 wythnos o fewn y bwrdd iechyd gyda chefnogaeth estynedig, er enghraifft, gan hyfforddwr swydd. Rhan allweddol o'r rhaglen yw cefnogi cyfranogwyr i gwblhau'r gweithdrefnau recriwtio arferol fel eu bod yn gallu mynd am swyddi gwag ar ddiwedd y lleoliad. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi helpu dros 200 o bobl i gael swydd yn y Bwrdd Iechyd, fel Cynorthwywyr Gofal Iechyd, gweithwyr domestig, porthorion, gweithwyr arlwyo, gweinyddu ac yn y labordai.

https://bcuhb.nhs.wales/get-involved/volunteer/volunteers-week-2021/step-in-work-volunteering/

## Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau

Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd cynllun newydd Llywodraeth Cymru i helpu mwy o bobl j gael ac aros mewn gwaith gan Weinidog yr Economi, Vaughan Gething. Mae'r cynllun cyflogadwyedd a sgiliau newydd yn nodi'r camau y bydd Gweinidogion yn eu cymryd i sicrhau'r Gwarant i Bobl Ifanc, cefnogi pobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael gwaith a chanolbwyntio ar wella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, merched a rhai â llai o sgiliau.

Yn berthnasol i bob ag anableddau dysgu, mae'r cynllun yn ymrwymo i:

**"Datblygu gweithgarwch i wella mynediad at ein rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sylweddol, a'u canlyniadau, drwy ddarparu cymorth dwys arbenigol hyfforddwyr swyddi."**

Mae'r prif ddatblygiadau'n cynnwys:

- Bydd y **cynlluniau peilot hyfforddeiaeth â chefnogaeth** yn dod yn rhan o raglen Twf Swyddi Cymru+ gyda chefnogaeth hyfforddwr swydd yn parhau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol a chymhorthdal cyflog i gyflogwyr. Cymru'n Gweithio/Gyrfa Cymru fydd y porth.
- **Cynlluniau peilot prentisiaethau â chefnogaeth a rennir** – bydd rhaglen brentisiaeth a rennir newydd yn cychwyn tua mis Awst 2022. Bydd 60 o leoedd ar gael gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru i 5 hyfforddwyr swyddi ddarparu cefnogaeth i bobl ag anableddau cymedrol i ddifrifol gymryd rhan. Bydd yr anogaeth i dderbyn prentisiaethau anabl yn parhau ac mae'n debygol o gynyddu.

https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-sgiliau

## Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar

Mae'r gymdeithas wedi creu pecyn adnoddau am ddim i ymgynghorwyr gyrfa, athrawon ac athrawon pobl fyddar i'w helpu i gefnogi pobl ifanc fyddar i gynllunio am ddyfodol gwych a chyflawni eu huchelgeisiau. Er nad yw wedi'i anelu at bobl ifanc ag anableddau dysgu, mae'n rhoi templed posib' ar gyfer datblygiad tebyg.

**Beth sydd wedi'i gynnwys?**

- Pecyn adnoddau manwl yn cynnwys wyth cynllun gwers sy'n trafod amrywiaeth o bynciau a thrafodaethau sy'n addas i bobl ifanc byddar 13 i 25 oed.
- Cyflwyniad gweithdy ac amryw o adnoddau gweithgareddau ar gyfer pob gwers
- Canllaw ategol ac adnoddau ar sut i addasu gweithgareddau i'w gwneud ar-lein.
- Gwybodaeth am ble i gael mwy o gefnogaeth a chyngor gyrfa i bobl fyddar yn benodol.

https://www.ndcs.org.uk/search?q=career%20planning%20curriculum#search-results




Llun trwy garedigrwydd Cymdeithas Cyflogaeth â Chefnogaeth Prydain, https://www.base-uk.org/about-supported-employment

## Together Matters – 'I'm Thinking Ahead: how to be part of the world of work'

Mae Together Matters wedi cyd-gynhyrchu ystod o adnoddau i bobl ag anableddau dysgu, teuluoedd a gofalwyr i'w helpu i gynllunio'n annibynnol. Fel rhan o'r canllaw 'I'm Thinking Ahead', mae ganddynt adran newydd ar sut i fod yn rhan o'r byd gwaith, sydd ar gael i'w lawrlwytho o'u gwefan. Maent hefyd yn gallu helpu ardaloedd lleol i addasu'r canllaw i'w hardal nhw.

https://www.togethermatters.org.uk/resources-and-information/

Os hoffech chi gael gwybod mwy am gyflogaeth i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu, cysylltwch â Kim Killow ar Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk

# CEFNOGAETH I DEITHIO

Mae teithio'n annibynnol yn fater pwysig i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Mae'r adran hon yn edrych ar enghreifftiau o gymorth ymarferol i alluogi pobl ifanc i deithio'n annibynnol.

## Hyfforddiant Teithio Cyngor Swydd Hertford

Mae hyfforddiant teithio'n helpu pobl ifanc sydd ag AAAA i fod yn fodlon wrth deithio'n annibynnol. Mae hyfforddwyr teithio profiadol yn rhoi'r holl anogaeth, gwybodaeth a chefnogaeth mae'r person ifanc ei angen, ac yn gweithio gyda nhw'n unigol.

https://www.hertfordshire.gov.uk/microsites/local-offer/preparing-for-adulthood/travel-training.aspx

## Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol Cyngor Sir y Wirral

Mae Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol y Wirral yn gefnogaeth deithio un i un i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau (AAAA) i roi iddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar eu pen eu hunain. Mae hyfforddwr teithio'n mynd gyda'r person ifanc ar eu taith i ac o'r ysgol neu goleg nes maent yn barod i fynd ar y daith ar eu pen eu hunain. Bydd yr hyfforddwr teithio yn:

- cyfarfod gyda rhieni neu ofalwr y person ifanc cyn cychwyn unrhyw hyfforddiant
- creu cynllun siwrnai manwl, gyda lluniau a mapiau o'ch taith
- adeiladu ar sgiliau ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffyrdd
- trafod ystod eang o sefyllfaoedd 'beth petai'
- pan fydd wedi llwyddo, bydd y person ifanc yn cael tystysgrif teithiwr annibynnol.

https://www.wirral.gov.uk/schools-and-learning/funding-and-financial-support/free-travel-school/travel-training-young-people

## Mentrau hyfforddiant teithio eraill

Mae gan wefan Mencap restr o gynlluniau hyfforddiant teithio ledled y DU – nid ydynt i gyd yn benodol i bobl ifanc, ond mae'n werth cael golwg arnynt i hel syniadau.

https://www.mencap.org.uk/advice-and-support/transport/local-transport-initiatives

## Datrysiad Teithio'n Annibynnol Way2B

Mae Way2B yn ddatrysiad ar gyfer ffonau ac oriorau clyfar i alluogi pobl sydd â mwy o anghenion cefnogaeth i deithio'n annibynnol.

https://waytob.com/

https://vimeo.com/241160325

